

# Cri y Coll

*“Heblaw hyn oll, rhyngom ni a chwi y mae agendor llydan wedi ei osod, rhag i neb a ddymunai hynny groesi oddi yma atoch chwi, neu gyrraedd oddi yna atom ni.” (adn. 26)*

## Beth am ddarllen Luc 16:19–31 ac yna myfyrio

Mae’n gwbl amhosibl wrth gwrs i siarad am lid Duw heb hefyd siarad am uffern. Nid oes fawr o bregethau ar y testun hwn yn cael ei gyhoeddi heddiw, ond mae’r rhybuddion, gyda golwg ar uffern, yn aml yn y Beibl.

Yn ystod cyfnod cynnar fy ngweinidogaeth, a minnau yn ifanc yn y gwaith, yr oeddwn yn ofidus rhag sôn am uffern a bod hyn yn tarfu ar bobl. Yna, un diwrnod, rhoddodd Duw weledigaeth i mi (yr unig weledigaeth a gefais erioed fod pobl yn syrthio i uffern ac ers yr amser hwnnw, yr wyf wedi edrych ar y mater yn wahanol iawn.) Yn fy ngweledigaeth, yr oeddwn yn cerdded ar hyd un o briffyrdd dros ddinas Llundain a miloedd o bobl yn cerdded fel petai yr awr brysura’n y dydd. Ar ganol y briffordd, yr oedd dyn yn sefyll gyda lantern goch yn gweiddi: “Trowch yn ôl, trowch yn ôl”. Yna, fe’ m codwyd gan yr Ysbryd uwchben y dyrfa er mwyn i mi weld y rheswm pam fod y dyn yn galw. Roedd y ffordd yn gorffen mewn dibyn ond wrth i’r bobl nesáu, nid oedd posibl troi yn ôl oherwydd pwysau’r rhai oedd yn dod ar eu hôl. Gwyliais wrth i un ar ôl un syrthio dros y dibyn i mewn i’r dyfnder, ac yr oeddwn yn gwybod mai darlun oedd hwn o uffern.

Yn fy ngweledigaeth, clywais eu cri ac mae fy mywyd wedi ei lywio ers hynny gan yr hyn yr wyf yn ei adnabod fel ‘cri y coll’. Dyna pam, fel efengylwr, yr wyf yn ceisio annog pobl i ddod at Iesu Grist ble bynnag a phryd bynnag y byddaf yn siarad. Rwy’n ymwybodol fod y rhai sydd yn darllen y myfyrdodau hyn heb eto ddod at Iesu Grist. Os nad wyt ti wedi gwneud y penderfyniad hynny i dderbyn Crist fel Gwardwr personol, yna rwy’n dy annog i wneud hynny’n awr. Adrodd y weddi hon gan ei hadrodd o dy galon:

**O Arglwydd Iesu, rwy’n codi fy nghalon atat ti’r foment hon. Mae’n flin gennyf fy mod wedi dy gau allan o’ m bywyd cyhyd. Rwy’n edifarhau am fy mhechod ac yn agor fy nghalon i’th dderbyn di fel Arglwydd a Gwardwr. Cynorthwya fi i fod y Cristion gorau y medraf ei fod. Amen.**

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 13:47–50; 25:31–46

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw’r ddau ddiwedd sydd i bobl?
2. Beth fydd dy ddiwedd di?